Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymunedol Maenclochog
Maenclochog
Clunderwen
Sir Benfro
SA66 7LB

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/07/2016**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gymunedol Maenclochog ym mhentref Maenclochog, Sir Penfro. Mae 97 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 3 disgybl oed meithrin, rhan-amser. Mae’r disgyblion wedi eu rhannu rhwng pedwar dosbarth oed cymysg. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol.

Daw tua hanner o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Tua 5% sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae’r ysgol wedi adnabod 27% o ddisgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Daw ychydig iawn o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion o dan ofal yr awdurdod lleol.

Penodwyd y pennaeth i’w swydd ym mis Medi 2010 a chafodd yr ysgol ei harolygu diwethaf ym mis Mehefin 2012.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymunedol Maenclochog yn 2015-2016 yw £3,907. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Sir Benfro yw £6,208 a'r lleiafswm yw £3,454. Mae Ysgol Gymunedol Maenclochog yn safle 43 o'r 61 ysgol gynradd yn Sir Benfro o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yno
- rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau meddwl yn llwyddiannus
- disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da
- ymddygiad bron pob disgybl yn dda
- aelodau'r cyngor ysgol, y pwyllgor eco a'r 'Criw Calon Lân' yn cyfrannu'n effeithiol iawn at fywyd yr ysgol
- rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu a rhifedd ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus
- rhan fwyaf yr athrawon yn cynllunio profiadau dysgu diddorol sy'n cymell disgyblion i ddysgu
- ganddi drefniadau effeithiol ar gyfer gofal a lles disgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gan arweinwyr weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles disgyblion
- llywodraethwyr yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn effeithiol am ei pherfformiad
- gweithdrefnau hunanarfarnu trylwyr yn eu lle
- gan arweinwyr ddealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella
- y cynllun datblygu yn canolbwyntio'n glir ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau
- partneriaeth effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni, sy'n sicrhau eu bod yn cymryd rôl weithredol yn addysg eu plant
- cydweithio agos yn bodoli gydag asiantaethau arbenigol sy'n sicrhau cefnogaeth a chymorth da iawn i ddisgyblion a theuluoedd bregus

## Argymhellion

A1 Creu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am grefyddau eraill a’r byd ehangach

A2 Sicrhau bod yr addysgu yn hybu dysgu annibynnol disgyblion yn gyson

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol llawer o'r disgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Maent yn datblygu'n ddysgwyr hyderus ac yn defnyddio'u medrau meddwl yn llwyddiannus i ddatrys problemau mewn gwersi. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ac yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol iawn ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa'n llwyddiannus mewn sefyllfaoedd amrywiol. Maent yn hyderus wrth sgwrsio a thrafod gyda'u cyfoedion ac oedolion gan fynegi eu hunain yn fedrus a chydag aeddfedrwydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn ddeallus ac yn ymateb yn synhwyrol mewn trafodaethau dosbarth. Mae gan y rhan fwyaf eirfa eang ac maent yn defnyddio cystrawen naturiol wrth siarad. Maent yn cyfrannu'n dda mewn gwersi gan gynnig syniadau a mynegi barn yn glir.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a seiniau yn gynnar ac yn dechrau adeiladu geiriau'n effeithiol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus gan ddarllen gyda chywirdeb a rhuglder. Maent yn trafod eu llyfrau'n fedrus ac yn dangos dealltwriaeth dda o ddigwyddiadau a'u hoff gymeriadau. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau'n llwyddiannus ac yn mwynhau darllen. Maent yn amrywio goslef y llais yn effeithiol er mwyn dal sylw'r gwrandawyr. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn ddeallus a chyda rhuglder, gan drafod cynnwys a mynegi barn yn fedrus. Maent yn defnyddio uwch fedrau darllen yn effeithiol i ddarganfod gwybodaeth i gefnogi gwaith dosbarth, er enghraifft defnyddio gwefannau er mwyn chwilio am wybodaeth am gynefinoedd ar draws y byd.

Mae medrau ysgrifennu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu brawddegau synhwyrol at wahanol bwrpasau, gan sillafu geiriau yn unol â'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed a'u gallu ac yn atalnodi'n gywir, ar y cyfan. Mae llawer yn dechrau amrywio brawddegau yn llwyddiannus i greu effaith ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa, gan gynnwys ansoddeiriau, i gyfoethogi'r gwaith. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus. Maent yn ysgrifennu'n effeithiol at wahanol bwrpasau ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. Enghraifft dda o hyn yw cofnod o ymholiad gwyddonol yn ymwneud â'r ysgyfaint. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n glir ac yn ddiddorol, gan ddefnyddio ansoddeiriau da i gyfleu naws a theimlad. Maent yn defnyddio paragraffau ac atalnodi'n llwyddiannus ac yn sillafu'r rhan fwyaf o eiriau cyfarwydd yn gywir. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu llawysgrifen daclus ac yn dangos balchder yng nghyflwyniad eu gwaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn dda mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.  Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn datrys problemau rhif yn llwyddiannus, defnyddio arian mewn sefyllfa pob dydd, casglu a chofnodi data mewn ffurf graff bar a defnyddio unedau mesur priodol, er enghraifft cymhwyso'u medrau rhif yn dda i fesur traed disgyblion y dosbarth er mwyn creu esgidiau haf.  Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau i ddatrys problemau rhifedd yn llwyddiannus.  Maent yn dadansoddi data, datrys problemau ffracsiynau a chanrannau yn ogystal â mesur cynhwysedd ac arwynebedd yn briodol.  Mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn effeithiol ar draws ystod o bynciau. Enghraifft dda o hyn yw'r defnydd o fesur a graddfa wrth greu cynllun ar gyfer yr ardal natur.

Mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn isel iawn, felly nid yw cymariaethau o'u perfformiad yn erbyn perfformiad disgyblion eraill yn ddibynadwy.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng cyflawniad bechgyn a merched ar y lefelau disgwyliedig nac uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen nac yng nghyfnod allweddol 2 dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliannau disgwyliedig ac uwch mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi amrywio o'i gymharu ag ysgolion tebyg dros gyfnod o bedair blynedd.  Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig ac uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn amrywio ym mhob pwnc craidd dros yr un cyfnod o'i gymharu ag ysgolion tebyg.

**Lles:  Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datgan eu bod yn hapus yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel.  Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda iawn ac maent yn dangos parch tuag at eu cyfoedion ac oedolion o fewn yr ysgol.

Mae gan bron pob plentyn ymwybyddiaeth dda o'r angen i fwyta'n iach ac i ymarfer y corff yn rheolaidd, gyda nifer helaeth yn manteisio ar y cyfle i fynychu clybiau chwaraeon ar ddiwedd y dydd.

Mae presenoldeb yr ysgol yn gyson uwch na'r cymedr o'i gymharu ag ysgolion tebyg dros bedair blynedd.  Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos lefel dda o gymhelliant a dyfalbarhad yn eu gwaith. Maent yn cadw ar dasgau yn dda am gyfnodau estynedig ac yn gwneud defnydd effeithiol o'u hamser.  Mae llawer ohonynt yn datblygu eu dealltwriaeth o'u targedau ac o'r meini prawf llwyddiant a osodir ar gyfer y gwahanol dasgau.  Maent yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn meithrin medrau dysgu annibynnol yn briodol.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn frwdfrydig, yn weithgar ac yn cael effaith gadarnhaol ar amgylchedd yr ysgol.  Enghraifft dda o hyn yw'r 'gadair ddarllen gymunedol' sydd wedi ei chreu drwy gydweithio effeithiol gyda chrefftwyr lleol.  Mae criw 'Calon Lân' yn rhoi ffocws arbennig ar iechyd a'r amgylchedd ac mae cyflwyniad digidol wedi ei greu er mwyn rhannu'r arferion hyn gydag ysgolion eraill.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu effeithiol ar draws y cwricwlwm sy'n ymateb yn dda i ddiddordebau'r disgyblion. Mae'r ddarpariaeth yn bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddysgu am gredoau eraill o fewn y maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol.

Mae'r ysgol yn datblygu dulliau effeithiol o gynllunio ar gyfer cyflwyno'r medrau ar draws y cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau bod disgyblion yn caffael medrau llythrennedd, cyfathrebu a rhifedd yn gadarn o fewn y gwersi. Mae gan yr ysgol rhaglen waith technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) addas sy'n cael ei hymgorffori'n briodol yn y profiadau mae'r disgyblion yn eu derbyn, ar draws yr ysgol.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig ei chyflwyno'n gyson ar draws yr ysgol. Caiff hyn ei gyfoethogi gydag ymweliadau i ganolfannau hanes lleol a chanolfannau preswyl. Mae'r ysgol hefyd yn derbyn ymweliadau gan artistiaid a llenorion Cymreig er mwyn cyfoethogi'r cwricwlwm. Mae cyfleoedd amrywiol i'r disgyblion gael profiadau eang wrth siarad a darllen ac wrth ysgrifennu mewn ystod eang o ffurfiau. Mae strategaethau criw 'Cymry Cŵl' yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ethos Cymreig yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu dealltwriaeth disgyblion o faterion sy'n ymwneud â datblygiad cynaliadwy yn dda. Mae gwaith y pwyllgor eco yn atgyfnerthu'r gwaith hwn yn llwyddiannus iawn. Er enghraifft, mae disgyblion wedi cydweithio â rhieni er mwyn sefydlu ardal natur ar dir yr ysgol sy'n sicrhau eu bod yn derbyn profiadau cyfoethog. Mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd arbed ynni, ailgylchu a lleihau gwastraff. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am y byd eangach.

**Addysgu: Da**

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf yr athrawon yn cynllunio profiadau dysgu diddorol sy'n cymell disgyblion i ddysgu. Mae llawer o wersi yn cynnwys cyflwyniadau a strwythurau cadarn sy'n sicrhau bod disgyblion yn gallu ymateb yn llwyddiannus i'w tasgau. Mae'r cydweithio effeithiol sy'n bodoli rhwng athrawon a chymorthyddion yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu, ac mae'r berthynas gadarn sy'n bodoli rhwng staff a disgyblion yn creu ethos cyfeillgar a gofalgar. Mae bron pob aelod staff yn modelu iaith yn glir a chywir, sy'n cyfrannu'n dda at gywirdeb llafaredd y disgyblion. Mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda, ac maent yn cysylltu eu gwersi'n effeithiol â dysgu blaenorol. Yn yr ychydig iawn o enghreifftiau lle mae addysgu ychydig yn llai effeithiol, mae trefniadaeth dosbarth yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol a chyflawni cystal ag y gallent.

Mae athrawon yn gwneud defnydd cadarn o strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol. Maent yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn cynnig adborth addas iddynt. Mae disgyblion yn derbyn cyfleoedd priodol i weithredu ar yr adborth

hwn trwy wella darnau o'u gwaith. Mae hyn yn gwella'u dealltwriaeth o'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion yn llwyddiannus ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i adnabod a darparu gweithgareddau priodol ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys sylwadau gwerthfawr ar gynnydd eu plentyn ynghyd â thargedau addas er mwyn gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar iawn sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion yn effeithiol. Mae ethos o barch, cyfrifoldeb a gofal yn elfen gref o fywyd yr ysgol. Mae trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r ethos gofalgar hwn yn sicrhau bod y disgyblion yn deall eu hawl i fod yn ddiogel, ac maent yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn poeni neu'n gofidio am rywbeth.

Mae gan y pennaeth weithdrefnau cadarn ar gyfer gwella presenoldeb. O ganlyniad, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn gyson uchel. Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol iawn i gefnogi iechyd a lles disgyblion, gan gynnwys cysylltiadau agos ac effeithiol ag asiantaethau arbennig fel y gwasanaethau lles, yr heddlu, nyrs yr ysgol a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae ganddi hefyd drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed iach. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y disgyblion am faterion sy'n ymwneud â'u hiechyd a'u lles. Mae'r amrywiaeth o weithgareddau mewnol ac allgyrsiol hefyd yn hyrwyddo'r elfen hon yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau coginio gwerthfawr yn yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau priodol i adnabod anghenion y disgyblion yn gynnar a chymryd camau priodol i fodloni eu hanghenion. Mae gan yr ysgol gynlluniau effeithiol i gefnogi disgyblion sydd angen cymorth. Mae targedau miniog yn cael eu rhannu a'u hadolygu gyda rhieni a disgyblion yn rheolaidd. Mae'r staff yn cydweithio'n dda i ddarparu rhaglenni gwaith effeithiol ar gyfer y disgyblion hyn. O ganlyniad, mae'r ysgol yn llwyddo i sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos croesawgar, cynnes a gofalgar yn bodoli yn yr ysgol, sy'n yn sicrhau mynediad cyfartal i bob disgybl. Mae disgyblion yn cael cyfle i gynrychioli eu cyfoedion ar amryw o bwyllgorau yn yr ysgol. Rhoddir pwyslais ar bwysigrwydd dangos parch a chwrteisi at bawb, sy'n arwain at amgylchedd diogel sy'n meithrin gofal at eraill.

Mae cyflenwad helaeth o adnoddau o ansawdd da i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Defnyddir y maes chwarae cymunedol yn effeithiol ar gyfer clybiau a gwersi ymarfer corff. Mae arddangosfeydd deniadol a lliwgar yn dathlu llwyddiannau a gwaith y disgyblion ar draws yr ysgol yn effeithiol. Mae adeiladau a thir yr ysgol yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n effeithiol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth profiadol yn adnabod yr ysgol a'i chymuned yn dda iawn. Mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer codi safonau a sicrhau lles y disgyblion. Mae'r llywodraethwyr, y rhieni, y staff a'r disgyblion yn rhannu'r weledigaeth honno, ac mae'r ethos cryf o waith tîm sy'n bodoli, yn cyfrannu'n dda at gyflawni amcanion yr ysgol. Mae gan yr arweinwyr ddisgwyliadau uchel, ac mae'r gweithdrefnau monitro trylwyr sy'n bodoli yn llwyddo i sicrhau bod y staff yn gweithredu'n effeithiol. Cynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd, ac mae'r rhain yn canolbwyntio'n dda ar godi safonau cyrhaeddiad y disgyblion, gosod targedau a chynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae swydd ddisgrifiadau'r staff yn gyfredol ac yn adlewyrchu eu rolau a'u cyfrifoldebau yn eglur. Mae trefniadau rheoli perfformiad hwylus a phwrpasol mewn lle, gydag amcanion unigol y staff yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r amcanion hyn yn cael eu hadolygu'n drylwyr ac mae'r broses yn cyfrannu'n effeithiol at godi safonau'r dysgu ac addysgu.

Mae'r llywodraethwyr yn hynod gefnogol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn cydweithio'n agos gyda'r staff i fonitro gwaith yr ysgol a chyflawniad y disgyblion. Mae'r llywodraethwyr yn arweinwyr strategol deallus ac yn ffrindiau beirniadol, sy'n dwyn yr ysgol i gyfrif yn effeithiol am ei pherfformiad.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefnau hunanarfarnu trylwyr yr ysgol yn ei galluogi i adnabod ei hun yn dda. Gwneir defnydd effeithiol o ystod o weithgareddau monitro gan gynnwys craffu ar lyfrau gwaith y disgyblion, dadansoddi data ac arsylwi gwersi. Mae'r ysgol yn cywain barn y rhieni yn gyson ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w sylwadau. Mae'r disgyblion yn cyfrannu at y broses hunanarfarnu'n briodol trwy weithredu ar y nifer o bwyllgorau sy'n bodoli yn yr ysgol. Er enghraifft, trwy wrando ar sylwadau'r disgyblion, mae'r ysgol nawr yn cynnig gwersi hoci iddynt ac wedi creu cornel ddarllen ar gyfer y clwb brecwast.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn gryno ac yn rhoi darlun clir a chytbwys o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r meysydd i'w gwella yn cael eu cyfleu'n dda fel blaenoriaethau yn y cynllun datblygu. Mae'r cynllun yn cynnwys nifer hylaw o flaenoriaethau, targedau mesuradwy a symiau penodol o gyllid. Mae'r cynllun yn sicrhau bod y staff a'r llywodraethwyr yn chwarae eu rhan yn dda trwy weithredu'r cynllun a monitro cynnydd yn effeithiol. Mae'r trefniadau monitro yn dangos bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun blaenorol ac wedi ymateb yn drylwyr i bron pob un o argymhellion yr arolygiad diwethaf.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau strategol buddiol iawn.

Mae partneriaeth dda iawn yn bodoli gyda'r rheini. Maent yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn mynychu nifer o weithdai a drefnir ar eu cyfer er mwyn iddynt fedru cefnogi eu plant yn dda.

Mae'r bartneriaeth gyda swyddogion yr awdurdod lleol yn cyfrannu'n effeithiol at godi safonau a gwella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion. Mae'r cydweithio agos gydag asiantaethau arbenigol yn sicrhau cefnogaeth a chymorth da iawn i ddisgyblion a theuluoedd bregus.

Mae'r ysgol yn chwarae rhan allweddol ym mywyd y gymuned, trwy gystadlu'n frwd yn yr eisteddfod leol yn flynyddol a mynychu'r capel a'r eglwys ar gyfer achlysuron arbennig. Mae aelodau o'r gymuned yn ehangu profiadau dysgu'r disgyblion yn dda trwy gynnal gweithdai celf, garddio ac ysgrifennu creadigol.

Mae'r trefniadau pontio gyda'r ysgol feithrin a'r ddwy ysgol uwchradd yn fuddiol ac yn sicrhau bod y disgyblion yn ymgartrefu'n hwylus wrth iddynt symud ymlaen at y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r ysgol yn safoni a chymedroli gwaith y disgyblion yn effeithiol gydag ysgolion y clwstwr, sy'n cyfrannu'n dda at sicrhau cysondeb o ran cywirdeb asesiadau athrawon. Mae'r ysgol yn rhannu cyllid gydag ysgolion lleol er mwyn prynu adnoddau i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i'r staff rannu arfer dda gydag ysgolion eraill o fewn y cylch a thu hwnt.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol strwythur rheolaethol llwyddiannus sy'n rhannu cyfrifoldebau yn effeithiol. Mae arweinwyr yn gwneud y defnydd gorau o arbenigedd y staff i wireddu nodau, cynlluniau a chyfrifoldebau strategol yr ysgol yn llwyddiannus. Mae gan yr ysgol gyflenwad digonol o athrawon a chynorthwywyr dysgu i ymdrin â phob agwedd o'r cwricwlwm. Mae trefniadau addas ar gyfer cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu ar gyfer athrawon. Mae'r staff cyfan yn cefnogi'i gilydd yn dda ac yn cydweithio'n effeithiol i gefnogi'r disgyblion. Mae'r cynorthwywyr dysgu yn defnyddio'u harbenigedd i gefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r prosesau ar gyfer rheoli perfformiad y staff yn arwain at bennu amcanion priodol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau gwella'r ysgol a'u hanghenion datblygiad proffesiynol. Mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd maent wedi mynd ati i ddysgu mwy am strategaethau cyfredol i wella medrau darllen disgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n briodol o fewn rhwydweithiau dysgu, sy'n cyfrannu'n dda at gyfoethogi'r ddarpariaeth. Mae hyn eto yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau cyllidebol trylwyr ac mae gwariant yn cysylltu'n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau gwella'r ysgol. Mae'r pennaeth, swyddog gweinyddol a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli'r cyllid yn ofalus.

Defnyddir y grant amddifadedd disgyblion yn synhwyrol ar gyfer gwella medrau llythrennedd, rhifedd a lles grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6682233 - Ysgol Gymunedol Maenclochog**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 87 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 4.6 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 12 | 14 | 10 | 13 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 58.3 | 71.4 | 90.0 | 69.2 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 14 | 10 | 13 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 66.7 | 71.4 | 90.0 | 84.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 16.7 | 35.7 | 50.0 | 23.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 1 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 14 | 10 | 13 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 66.7 | 85.7 | 100.0 | 84.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 16.7 | 35.7 | 30.0 | 15.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 14 | 10 | 13 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 58.3 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 57.1 | 80.0 | 46.2 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 2 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6682233 - Ysgol Gymunedol Maenclochog**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 87 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 4.6 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 21 | 16 | 8 | 11 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 85.7 | 87.5 | 100.0 | 81.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 21 | 16 | 8 | 11 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 95.2 | 87.5 | 100.0 | 72.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 38.1 | * | * | 45.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | * | * | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 21 | 16 | 8 | 11 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 76.2 | 87.5 | 100.0 | 81.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 23.8 | 43.8 | * | * |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 21 | 16 | 8 | 11 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 95.2 | 87.5 | 100.0 | 90.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 28.6 | 37.5 | * | 54.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | * | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 21 | 16 | 8 | 11 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.5 | 87.5 | 100.0 | 90.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 38.1 | * | * | 54.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | * | * | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 49 | 49<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 49 | 48<br>98%<br>92% | 1<br>2%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 49 | 49<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 49 | 49<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 49 | 49<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 49 | 49<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 49 | 49<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 49 | 49<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 49 | 44<br>90%<br>91% | 5<br>10%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 49 | 49<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 49 | 46<br>94%<br>77% | 3<br>6%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 49 | 43<br>88%<br>84% | 6<br>12%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 23 | 14 | 9 | 0 | 0 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 61% | 39% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 24 | 15 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 24 | 15 | 9 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 22 | 15 | 7 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 68% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 24 | 13 | 10 | 1 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 54% | 42% | 4% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 22 | 15 | 7 | 0 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 68% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 23 | 14 | 9 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 61% | 39% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 24 | 7 | 13 | 2 | 2 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 29% | 54% | 8% | 8% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 23 | 15 | 5 | 3 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 65% | 22% | 13% | 0% | | |
| | | 60% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 23 | 12 | 10 | 1 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 52% | 43% | 4% | 0% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 24 | 19 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 20 | 13 | 6 | 1 | 0 | 4 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 65% | 30% | 5% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 24 | 4 | 16 | 3 | 1 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 17% | 67% | 12% | 4% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 23 | 14 | 6 | 2 | 1 | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 61% | 26% | 9% | 4% | | |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 17 | 5 | 11 | 1 | 0 | 7 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 29% | 65% | 6% | 0% | | |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 21 | 12 | 8 | 1 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 57% | 38% | 5% | 0% | | |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 14 | 5 | 9 | 0 | 0 | 8 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 36% | 64% | 0% | 0% | | |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 24 | 12 | 9 | 3 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 50% | 38% | 12% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 23 | 15 | 7 | 1 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 65% | 30% | 4% | 0% | | |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Kevin Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Robert Clive Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Shân Clarke | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy’r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i’r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae’r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i’r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni’r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.